SIR GAERFYRDDIN


# Nodiadau Natur

Partneriaeth Natur
SIR GÂR • CARMARTHENSHIRE
Nature Partnership

## EBRILL-MEHEFIN 2025

Mae gan Sir Gaerfyrddin gyfoeth o fywyd gwyllt. Mae'r 'Nodiadau Natur' hyn yn nodi rhai o'r uchafbwyntiau er mwyn ein hannog ni i gyd i fwrw golwg fanylach o'n hamgylch ni – mae hyd yn oed y pethau mwyaf cyffredin yn arbennig. Ydych chi wedi gweld rhywbeth diddorol? Beth am anfon llun atom?





I gael rhagor o wybodaeth am natur yn y sir, darllenwch ein Cynllun Adfer Natur:
sirgar.llyw.cymru/bioamrywiaeth

Anfonwch eich lluniau at: Bioamrywiaeth@sirgar.gov.uk



## Gwyfyn brith y fedwen

Bosib iawn bydd deilen grom y fedwen yn cynnwys larfa gwyfyn brith y fedwen (*Apotomis betuletana*), sy'n troelli ac yn rholio dail y fedwen at ei gilydd. Mae gan y gwyfyn bach hwn batrwm brith nodedig ar ei adenydd, sy'n ei helpu i gelu yn y coed bedw. Maent brysuraf rhwng Mai a Gorffennaf, ac i'w canfod lle ceir coed bedw mewn coetir agored, llwybrau a chyrion coedwigoedd, prysgwydd, clystyrau o goed bedw ar rostir, a thir gwastraff.




## Clociau Dant y Llew

Difyr iawn yw hadau dant y llew. Pan fydd blodyn dant y llew yn aeddfedu, mae'n trawsnewid yn ben blewog o hadau gwyn. Mae pob hedyn yn sownd i strwythur bach tebyg i barasiwt o'r enw papws, sy'n golygu gall gael ei gario i ffwrdd gan y gwynt. Mae'r dyluniad clyfar hwn yn helpu dant y llew i ledaenu ymhell ac agos, gan sicrhau ei fod yn goroesi mewn amrywiaeth o gynefinoedd. Er y caiff ei ystyried yn chwyn gan lawer, trwy ddarparu bwyd i bryfed ac adar mae dant y llew yn rhan hollbwysig o ecosystemau.



## Cynffonwellt y Maes

Mae Cynffonwellt y Maes (*Alopecurus pratensis*) yn laswellt brodorol deniadol. Gall dyfu hyd at 1.2m o daldra ac mae ganddo ddail llydan, gwastad sydd â phen blodyn trwchus, siâp sigâr sy'n debyg i gwt cadno. Mae'r glaswellt hwn yn gyffredin ar ddolydd ac ymylon – gan ddarparu gwead ac ansawdd diddorol i unrhyw laswelltir. Mae Cynffonwellt y Maes yn blodeuo o Ebrill i Fehefin ac yn bwrw llawer iawn o paill. Mae Cynffonwellt y Maes yn hanfodol i fioamrywiaeth leol – mae'n blanhigyn bwyd ar gyfer dros [30 o rywogaethau](#) o infertebratau, sydd yn eu tro yn ysglyfaeth i



## Corryn Sombi

Math o ffwng sy'n targedu corynnod yn benodol yw'r *Engyodontium aranearum*, yn enwedig y Corryn Seler hirgorff (*Pholcus phalangioides*). Mae'r ffwng hwn yn adnabyddus am ei effaith angheuol ar gorynnod. Pan gaiff corryn ei heintio, mae'r ffwng yn treulio meinwe'r corryn ac mae sborau'n ffrwydro allan. Mae astudiaethau wedi dangos bod y ffwng hwn yn lladd 100% o'r corynnod heintiedig.



## Graean bras arfordirol â llystyfiant

Mae graean bras arfordirol â llystyfiant yn gynefin prin a gwerthfawr yn Sir Gaerfyrddin. Yma mae Llygwyn yn dechrau ennill ei blwyf ymhlith y cerrig mân. Ceir y cynefin hwn mewn nifer fach o leoliadau yn y sir, ac mae'n siŵr taw  Penrhyngwyn, Machynys, i'r de o Lanelli yw'r gorau ohonynt. Mae'r ardaloedd hyn yn cefnogi cymunedau arbenigol o blanhigion ac infertebratau, sy'n eu gwneud yn gynefinoedd pwysig. Un o nodweddion graean bras arfordirol â llystyfiant yw ei sefydlogrwydd y tu hwnt i gyrraedd y tonnau, gan ganiatáu i lystyfiant parhaol ffynnu. Mae'r ecosystemau unigryw hyn yn agored i aflonyddwch.





## Chwilen Deigr Werdd

Mae'r Chwilen Deigr Werdd yn bryfyn bywiog a diddorol sy'n adnabyddus am ei liw gwyrdd trawiadol a'i smotiau melyn nodweddiadol. Mae'r chwilod hyn i'w gweld ar rostiroedd a chynefinoedd tywodlyd, ac maent yn ysglyfaethwyr ystwyth sy'n defnyddio eu cyflymder a'u genau miniog i ddal morgrug a phryfed bach eraill. Ar ddiwrnodau heulog yn y gwanwyn ac ar ddechrau'r haf maent fwyaf prysur. Mae'r larfa'n byw mewn tyllau, lle llechant tan i'w cinio ddod heibio. Mae'r Chwilen Deigr Werdd yn hanfodol i'r ecosystem gan ei bod yn rheoli poblogaethau pryfed ac yn ffynhonnell fwyd i adar ac ysglyfaethwyr eraill.

## Paill o goed conwydd

Yn wahanol i blanhigion sy'n blodeuo, lle cynhyrchir hadau o fewn ffrwythau, mae hadau conwydd ar wyneb cennog y conau. Mae conau benywaidd yn gwarchod yr hadau sy'n datblygu, tra bo'r conau gwrywaidd llai yn rhyddhau paill i'r gwynt - caiff y gronynnau bach eu cludo ar y gwynt i gonau benywaidd i'w ffrwythloni. Mae'r strategaeth peillio gwynt hon yn gwaredu'r ddibyniaeth ar bryfed peillio, sy'n golygu bod atgenhedlu effeithlon yn digwydd hyd yn oed mewn amgylcheddau prin eu pryfed.

Gall y gonwydden gynhyrchu llawer iawn o baill – gellir creu cymylau o baill dim ond drwy gyffwrdd â'r blodau gwrywaidd.

.



## Crwbach Mawr

Mae'r Crwbach Mawr (*Peridea anceps*) yn wyfyn nodedig mawr gydag antenâu bron hanner mor hir â'r adain flaen. Mae'r sianis blewog yn bwydo ar ddail derw ac maent yn plygu eu cyrff i ddychryn ysglyfaethwyr, sy'n ymddygiad unigryw. Mae'r gwyfynod i'w gweld o Ebrill i Orffennaf ac yn cael eu denu'n hawdd i oleuni.



## Gwybedyn Mai Gwyrdd

Mae'r Gwybedyn Mai Gwyrdd (*Ephemera danica*) yn bryfyn diddorol sy'n gyffredin ar Ynysoedd Prydain. Mae gan y gwybed mai hyn led adenydd o tua 15-25mm, ac mae'r gwrywod ychydig yn llai na'r benywod. Maent yn hawdd eu hadnabod oherwydd eu hadenydd lled dryloyw â gwythiennau tywyll a'u tair cynffon hir. Mae Gwybed Mai Gwyrdd yn treulio'r rhan fwyaf o'u bywydau fel nymffau mewn afonydd a llynnoedd, lle maent yn bwydo ar falurion organig. Byr iawn yw eu bywyd fel oedolion, ychydig ddyddiau'n unig, ac nid ydynt yn bwyta yn y cyfnod hwnnw. Mae'r gwybed mai hyn yn hanfodol bwysig i'r ecosystem, gan eu bod yn fwyd i bysgod, adar ac ysglyfaethwyr eraill.



## Chwilen Ddail y Poplys

Chwilen fach, brysur yw chwilen ddail y poplys (*Chrysomela populi*), sy'n bwydo'n bennaf ar ddail coed poplys a helyg. Hawdd yw adnabod y chwilod hyn yn ôl eu casys adenydd coch llachar a'u cyrff du-wyrdd. Mae'r oedolion a'r larfa'n bwydo ar y dail. Mae chwilod dail y poplys i'w cael ledled y DU, yn enwedig mewn coetiroedd, gwrychoedd, parciau a gerddi.



## Mwy o ffasgelliad

Mae ffasgelliad yn ffenomenon diddorol lle mae coesau'r planhigyn yn troi'n anarferol o fflat a hir. Mae'r cyflwr hwn yn cael ei achosi gan fwtadiad genetig neu ffactorau amgylcheddol fel difrod neu haint. Yn hytrach na thyfu mewn siâp silindrog nodweddiadol, mae'r coesau'n ymdebygu i rubanau neu ffaniau. Er gwaetha'i olwg, bydd yr Helyglys Hardd yn parhau i dyfu a blodeuo gan gynhyrchu blodau pinc nodweddiadol. Nid yw'r cyflwr hwn yn niweidio'r planhigyn ac mae'n ychwanegu at yr amrywiaeth o siapiau a geir ym myd natur.

Mae'n debygol fod y fforchiad anarferol yn neilen Tafod yr Hydd yn esiampl arall o ffasgelliad. Edrychwch yn fanylach pan fyddwch allan ar hyd lle!



## Nadroedd Defaid

Fel arfer mae nadroedd defaid (*Anguis fragilis*) yn paru yn y gwanwyn (Mai i Fehefin), pryd mae'r gwrywod yn troi'n fwy ymosodol ac yn cystadlu am gymar. Yn ystod y garwriaeth, mae'r gwryw'n brathu pen neu wddf y fenyw ac mae eu cyrff yn ymblethu, a gall hyn bara am sawl awr. Gallwch weld hyn yma. Mae nadroedd defaid yn ymddeorol, sy'n golygu eu bod yn deori wyau'n fewnol ac yn rhoi genedigaeth i rai bach byw yn yr haf.





## Mai Di Dor

Cawson ni i gyd ein hannog i dolio ar y torri yn ystod Mai Di Dor, ac wedyn cymryd cip manylach ar beth ddigwyddodd wedi i ni adael i blanhigion dyfu a blodeuo. Dyma ichi enghraifft dda. Dyma safle sy'n cael ei reoli gan y Cyngor fel dôl erbyn hyn, ac mae'r glaswellt yn cael ei dorri a'i gasglu'n hwyrach yn yr haf. Ceir cyferbyniad amlwg rhwng y safle hwn a'r un drws nesa sy'n cael ei ddwys-reoli.

Yma mae caniatáu i rywogaethau planhigion flodeuo wedi darparu ffynhonnell hanfodol o baill a neithdar. Mae glaswellt hirach hefyd yn rhoi lloches i fywyd gwyllt, a'n rhoi profiad pleserus gobeithio i bobl sy'n defnyddio'r llecynnau lle caiff lonydd i dyfu.

## Partneriad Natur Sir Gar

amphibian and reptile conservation

Butterfly Conservation Wales
Gwarchod Glöynnod Byw Cymru

Botanical Society of the British Isles

buglife

Bumblebee Conservation Trust
Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn

The carbon community

Clwb Adar Sir Gaerfyrddin
Carmarthenshire Bird Club

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

Carmarthenshire Meadows Group
Grŵp Dolydd Sir Gaerfyrddin

Dŵr Cymru
Welsh Water

Floodplain Meadows Partnership

Menter ar Gyfer Cadwraeth Natur Cymru
Initiative for Nature Conservation Cymru

Llanelli Naturalists
Naturiaethwyr Llanelli

Mid Wales Red Squirrel Partnership
Canolbarth Cymru Partneriaeth Gwiwerod Coch

National Botanic Garden of Wales
Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Ymddiriedolaeth Genedlaethol
National Trust

Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur
Nature Friendly Farming Network

Project Seagrass

Plantlife

RSPB

Asiant Cefnffyrdd De Cymru
South Wales Trunk Road Agent

West Wales Biodiversity Information Centre
Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru
WWBIC

West Wales Rivers Trust
Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru

WWT

Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru
Wildlife Trust of South & West Wales

Coed Cadw
Woodland Trust

VWT Vincent Wildlife Trust

